# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol ~ Weekly Newsletter

**13.02.26**




## Gair gan y Pennaeth ~ Headteacher's Greeting

Braf heddiw oedd gallu dod ynghyd i wylio **Gwasanaeth Dosbarth 2E**. Rhannwyd negeseuon pwysig a chlir gyda ni am gadw'n ddiogel ar we ac am ofalu am ein iechyd meddwl. Llongyfarchiadau mawr i bawb ar berfformiadau penigamp. Diolch hefyd i Mr Williams, Mrs Thole a Mrs Moreno am baratoi a chefnogi'r plant.

Rydym wedi bod yn dysgu ar draws yr ysgol yr wythnos hon am bwysigrwydd cadw'n **ddiogel ar y we**. Gyda phwysigrwydd hyn yn cynyddu'n barhaus, gwerthfawrogwn pob cefnogaeth gennych chi fel rhieni i bwysleisio'r neges honno a sicrhau bod monitro agos o bob gweithgarwch digidol. Efallai bydd hwn yn ddefnyddiol: NSPCC Internet Safety Advice Gyda'r wythnos hon hefyd yn wythnos iechyd meddwl plant, rydym hefyd wedi rhoi ffocws ar berthyn i gymuned yr ysgol a rhannu'r neges taw **"Dyma fy lle i"**. Diolch i bob plentyn am rannu eu syniadau a helpu cefnogi pawb fel aelodau pwysig o'n cymuned. I ychwanegu at gyffro'r dydd, cawsom ddisgo i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Hyfryd oedd gweld baneri lliwgar y plant yn chwifio yn hwyliog – diolch i chi am greu y baneri a diolch i'r Dreigiau Doeth a Mrs Darch am drefnu.

Dros yr wythnosau dwetha, mae rhai o ddisgyblion B4 a B5 wedi bod yn derbyn hyfforddiant Dulliau Adferol er mwyn gallu rhoi cymorth i ddisgyblion eraill. Mae'r Criw Cymorth pwysig yma wedi gorffen eu hyfforddiant yr wythnos yma ac wedi creu cryn argraff wrth wneud. Diolch iddyn nhw i gyd am eu sgiliau medrus. Edrychwn ymlaen at weld cyfraniad y Criw Cymorth wrth iddyn nhw gyfoethogi ein dulliau adferol ar draws yr ysgol.

Wrth i ni gyrraedd yr hanner tymor, dyma ddymuno wythnos hyfryd o ymlacio a mwynhau i chi gyd. **Diolch** eto am bob cymorth a chefnogaeth gydol yr hanner tymor.

●☆●☆●☆●☆●☆●☆

We had a special morning today as we got together for **Dosbarth 2E's Class Assembly**. The pupils shared important and clear messages about staying safe online and taking care of our mental health. Congratulations to everyone on truly superb performances. Diolch too to Mr Williams, Mrs Thole and Mrs Moreno for preparing and supporting the children.

Across the school this week, we've been learning about the importance of **staying safe online**. We appreciate all support from you as parents to emphasise the important of on-line safety and to ensure that all digital activities are closely monitored. You may find this link helpful: NSPCC Internet Safety Advice With this week also being children's mental health week, we have also put a focus on belonging in our school community and sharing the message **"This is my place".** Thank you to all children for sharing their ideas and helping to support others as important members of our community. And as if that wasn;t enough, we also had a whole-school disco to celebrate Dydd Miwsig Cymru today. It was great to see the children having fun with their colourful banners – diolch for creating the banner and thank you to the Dreigiau Doeth and Mrs Darch for organising.

Over the past few weeks, some of the B4 and B5 pupils have been receiving Restorative Methods training in order to be able to provide support to other pupils. This important Support Crew have finished their training this week and have made quite an impression in the process. Thank them all for their skillful skills. We look forward to seeing the contribution of the Support Crew as they enrich our restorative approaches across the school.

As we reach the half-term, I wish you all a lovely week of relaxation and enjoyment. **Diolch** to you all for your continued support and cooperation throughout the half term.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Gwener / Friday 27.02.26**
Eisteddfod Ysgol
School Eisteddfod

**Sadwrn / Saturday 07.03.26**
Eisteddfod Dawns yr Urdd
4pm @ Fitzalan High

**Sadwrn / Saturday 07.03.26**
Eisteddfod yr Urdd (Cylch)

**Mawrth / Tuesday 10.03.26**
**Mercher / Weds 11.03.26**
Nosweithiau Rhieni
*Parents' Evenings*

**Iau / Thursday 12.03.26**
Colorfoto
(Dosbarthiadau / *Classes*)

**Gwener / Friday 13.03.26**
Gwasanaeth Dosbarth 2C
*2C Class Assembly*

**Sadwrn / Saturday 21.03.26**
Eisteddfod yr Urdd
(Rhanbarth / Regional)

**20.04,26 - 22.04.26**
Cwrs Preswyl B5
*Year 5 Residential Course*
(Call of the Wild)

---

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

Gwasanaeth Dosbarth 2E – 2E Class Assembly

Da iawn bob un!   Well done all!




RAGS 2 RICHES
4schools
Casgliad nesaf:
20fed o Fawrth
NEXT COLLECTION:
20th March
Cofiwch ddod â'ch rhoddion i mewn
y diwrnod cynt, os gwelwch yn dda.
Please bring in your
donations the day before
20fed
o Fawrth
Diolch!
THANK
YOU!

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week





## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Chwefror 27
Mawrth 13
Mawrth 27

**Croeso i aelodau newydd bob amser!**

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

February 27
March 13
March 27

***New members always welcome!***










### Clybiau ar ôl ysgol

Bydd staff yn cynnig y clybiau canlynol ar ôl ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 3-6. Diolch i'r staff i gyd am wirfoddoli.

Dydd Mercher –Celfyddydau Mynegiannol
Dydd Iau – Clwb Chwaraeon

**Clwb cynta'r tymor – 14.01.26**
**Clwb ola'r tymor – 19.03.26**

DS: Ni fydd clybiau ar 10.03.26 nac 11.03.26 oherwydd Nosweithiau Rhieni

### After school clubs


Staff offer the following after school clubs to pupils in Years 3-6. Thank you to all the staff who volunteer.

Wednesday – Expressive Arts
Thursday – Sports Club

**First club of the term – 14.01.26**
**Final club of the term – 19.03.26**

NB: There will be no clubs on 10.03.26 or 11.03.26 due to Parents' Evenings

## Hawl y Mis    Right of the Month







### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.




Diolch i bwyllgor Dinasyddion y Dyfodol am baratoi'r wybodaeth yma – dilynwch y QR i weld!

Casgliad Nesaf:

Dydd Gwener 27.02.26

Diolch to our Citizens of the Future Committee who have prepared this for us – follow the QR to see!

Next Collection:

Friday 27.02.26




cynllun chwarae agored
Bwrlwm Gwanwyn!
open access play scheme
STEM
Gweithgareddau dyddiol/ Daily activities
CELF A CHREFFT/ ART AND CRAFTS
LEGO
CHWARAEON/ SPORTS
GEMAU/ GAMES
FFRWYTHAU/ FRUIT
GWEITHGAREDDAU STEM ACTIVITIES
A MWY/ and more!
www.mentercaerdydd.cymru
CARDIFF CAERDYDD
Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project
Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565


cynllun chwarae agored
Bwrlwm Gwanwyn!
open access play scheme
Mawrth - Iau
17-19.02.2026
Tuesday- Thursday
Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6/ Reception - Year 6
Cofrestru ar y dydd/ Register on the day
10.00am-11.55am
Ysgol Glan Morfa
Ysgol Coed y Gof
Ysgol Y Wern
1.00pm-2.55pm
Ysgol Hamadryad
Ysgol Nant Caerau
Ysgol Y Berllan Deg
CELF A CHREFFT/ ART AND CRAFTS
LEGO
CHWARAEON/ SPORTS
GEMAU/ GAMES
FFRWYTHAU/ FRUIT
GWEITHGAREDDAU STEM ACTIVITIES
A MWY/ and more!
www.mentercaerdydd.cymru
AM DDIM/ FREE
CARDIFF CAERDYDD
Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project
Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565



**Half-term Forest Fun!**

Join the Community Park Rangers on 16 & 18 February, 10am-2pm at Forest Farm Wardens Centre for a fun-filled woodland adventure!

Get ready for muddy fun, den building, marshmallow roasting, and creative crafts in the great outdoors.

**For more info, visit:** Outdoor Events in Cardiff - Outdoor Cardiff

Booking is essential. Please email CommunityParkRangers@cardiff.gov.uk to book your place.



**Hwyl y Goedwig Hanner Tymor!**

Ymunwch â Cheidwaid y Parciau Cymunedol ar 16 a 18 Chwefror, 10am-2pm yng Nghanolfan Wardeiniaid Fferm y Fforest am antur coetir yn llawn hwyl!

Paratowch ar gyfer hwyl mwdlyd, adeiladu cuddfannau, rhostio malws melys, a chrefftau creadigol yn yr awyr agored.

**Am fwy o wybodaeth, ewch i:** Digwyddiadau - Outdoor Cardiff

Rhaid cadw lle. E-bostiwch CeidwaidParciauCymunedol@caerdydd.gov.uk i archebu.